Tribiwnlys Addysg Cymru
Adroddiad Blynyddol
Safonau'r Gymraeg
Ebrill 2021 – Mawrth 2022

Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth	4
Adran 2	Statws yr Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer sefydliad sydd wedi newid ei enw	4
Adran 3	Asesu Cydymffurfiaeth	4

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45656, ISBN digidol 978-1-80364-776-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Rhagair

Ar 1 Medi 2021, newidiodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ei enw i Dribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys"). Dros y 3 blynedd nesaf, bydd y cyfreithiau am yr addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu yn newid. Fodd bynnag, at ddibenion Safonau'r Gymraeg bydd y Tribiwnlys yn dilyn yr un safonau ag a bennwyd ar gyfer TAAAC.

Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol y Tribiwnlys ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod o 1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022.

Mae dwy ran i'r Tribiwnlys, sef yr ysgrifenyddiaeth a'r Aelodau. Mae'r ddwy yn gweithio gyda'i gilydd yn ystod y broses apelio a hawlio, gan wneud tasgau gwahanol. Yr Aelodau yw:

- Llywydd y Tribiwnlys, hynny yw, yr arweinydd barnwrol;
- cadeiryddion cyfreithiol; ac
- Aelodau lleyg, gyda phrofiad o blant a phobl ifanc ag ADY a/neu anableddau.

Mae'r Tribiwnlys, ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae gan sawl un o aelodau'r Tribiwnlys sgiliau Cymraeg cryf, a gellir cynnull panel llawn (hynny yw, cadeirydd cyfreithiol a 2 aelod lleyg) a all gynnal gwrandawiad llawn yn Gymraeg.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am waith gweinyddol y Tribiwnlys a delio â'r holl ymholiadau ffôn ac ysgrifenedig. Gweision sifil yw'r rhain a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Nid oes neb yn nhîm yr ysgrifenyddiaeth yn rhugl yn Gymraeg, ond mae cymorth ysgrifenyddiaethau eraill o fewn yr Uned Tribiwnlysoedd Cymru ehangach ar gael iddynt pan fo angen. Mae'r Uwch Reolwr Gweithrediadau a Phennaeth Tribiwnlysoedd Cymru yn rhugl yn y Gymraeg.

Dyddiad Cyhoeddi: 30/09/2022

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau: Tribunal.Enquiries@llyw.cymru

Adran 1 – Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i ddrafftio gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac wedi'i gymeradwyo gan Lywydd Tribiwnlys Addysg Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn i'w weld ar wefan y Tribiwnlys, ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod ei fod wedi'i gyhoeddi.

Adran 2 – Statws yr Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer sefydliad sydd wedi newid ei enw

Ar 31 Mawrth 2022, derbyniodd Llywydd y Tribiwnlys lythyr gan Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg yn cadarnhau statws yr hysbysiad cydymffurfio ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys), yn dilyn newid ei enw o'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (TAAAC).

Dywedodd y llythyr, gan mai dim ond newid enw a fu yn yr achos hwn, a chan fod swyddogaethau'r Tribiwnlys yn parhau'n debyg iawn i'r tribiwnlys blaenorol, nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Mae'r hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddwyd ar gyfer TAAAC yn parhau i fod ar waith ar gyfer y Tribiwnlys. Wrth ystyried sefydliad sy'n newid ei enw ar ôl cael ei hysbysiad cydymffurfio o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nid yw newid enw person a bennir yn Atodlen 6 neu Atodlen 8 yn effeithio ar weithrediad y Mesur mewn perthynas â'r person hwnnw.

Adran 3 – Asesu Cydymffurfiaeth

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau drwy'r camau a ganlyn:

- Cynhyrchu brand dwyieithog newydd i gyd-fynd ag enw newydd y tribiwnlys.
- Darparu canllawiau i staff am sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn ac ateb negeseuon e-bost.
- Darparu templedi ar gyfer llythyrau, sy'n cynnig cyfle i gwsmeriaid ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg. Mae llythyrau a negeseuon e-bost oddi wrth y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol yn datgan bod gohebiaeth yn cael ei chroesawu yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys ffurflenni cais a dogfennau canllaw. Mae fersiynau Saesneg o ddogfennau a ffurflenni a gynhyrchir gan y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol yn datgan eu bod ar gael yn Gymraeg, ac y gall y cyhoedd gyflwyno gwybodaeth i'r Tribiwnlys yn Gymraeg.
- Sicrhau bod ymwybyddiaeth bod darpariaeth ar waith sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg ac y gall y rhai sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiad.
- Mae pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru system ffôn newydd drwy Microsoft Teams ym mis Ebrill 2021. Mae'r Tribiwnlys yn defnyddio'r system newydd hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 drwy sicrhau bod gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwyso 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwyso 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.

Defnyddio ein Gwasanaethau:

Derbyniodd y tribiwnlys 151 o geisiadau yn 2021-22 a chynhaliwyd 58 o wrandawiadau. O'r ceisiadau hyn, gofynnwyd i 1 gael ei brosesu yn Gymraeg, ond ni arweiniodd at wrandawiad, felly ni chynhaliodd y tribiwnlys unrhyw wrandawiadau yn Gymraeg.

Gwefannau

Isod ceir dadansoddiad o faint o ymweliadau a wnaed â thudalen hafan y Tribiwnlys ar y rhyngrwyd, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

	Saesneg	Cymraeg	Cyfanswm
Nifer yr ymweliadau â'r dudalen	8,748	763	9,511

Safonau Llunio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol fel y'u nodir gan ei ddeddfwriaeth lywodraethol. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Er hynny, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar ddarpariaeth ein gwasanaethau yn Gymraeg.

Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio y Tribiwnlys (sy'n manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi, a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys: www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/sites/educationtribunal/files/2021-08/hysbysiad%20cydymffurfio_0.pdf. Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn, os bydd cwyn o gwbl, mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau.

Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion i law'r Tribiwnlys ynghylch gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

Gwaith sydd i ddod 2022-2023

1. Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo ac annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â'r Tribiwnlys.

2. Bydd y Tribiwnlys yn cynnal archwiliad sgiliau o aelodau Cyfreithiol a Lleyg y Tribiwnlys. Diben hyn yw adolygu ein cofnodion ar gyfer y rhai sy'n gallu cynnal gwrandawiad Tribiwnlys yn Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i gynllunio system hunanreoleiddio ar gyfer y Tribiwnlys o ran cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

4. Bydd dogfen ganllaw hefyd yn cael ei chynhyrchu, gan roi cyfarwyddiadau i'r Tribiwnlys ar sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd, ac ar hwyluso cyfarfodydd dwyieithog drwy lwyfannau fideo-gynadledda.

5. Bydd gwefannau Tribiwnlys Addysg Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn cael eu hadolygu a bydd cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau'r Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hamlygu.

6. Bydd fideos dwyieithog yn cael eu cynhyrchu yn amlinellu gwaith a phroses y Tribiwnlys, gan esbonio'r newid o TAAAC i Dribiwnlys Addysg Cymru ac amlinellu'r ffordd y mae cylch gwaith y Tribiwnlysoedd wedi'i ymestyn. Bydd y fideos hyn yn annog y cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau'r Tribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.